

Papur Pwnc

# Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol

Awst 2019

Yr Iaith Gymraeg



## Cynnwys

- 1 Cyflwyniad
- 2 Y Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi
- 3 Y Gymraeg a Sir Gaerfyrddin
- 4 Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig

## Tablau

Tabl 1: Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin fesul Grŵp Oed (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)

## Ffigurau

Ffigwr 1: Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017)

Ffigwr 2: % y siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Etholiadol Sir Gaerfyrddin (ffigurau Cyfrifiad 2011)

Ffigwr 3: Y gwahaniaeth yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2001 a 2011 fel y'i cofnodwyd gan ddata'r Cyfrifiad

Ffigwr 4: Niferoedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin a niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2011) (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)

Ffigwr 5: Mewnfudo net blynyddol cyfartalog fesul grŵp oedran 2001/02-2016/17 (o'r papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd a baratowyd gan Edge Analytics)

Ffigwr 6: Poblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru yn Sir Gaerfyrddin 2011 (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Papur Pwnc hwn ynghylch y Gymraeg yn un o amrywiaeth o bapurau cefndir sy'n rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig. Mae'r papur hwn yn trafod yn benodol statws ac anghenion y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sut y gall y CDLI weithio i ddiogelu a chefnogi'r Gymraeg drwy'r system cynllunio defnydd tir.

1.2 Bydd y papur hwn yn darparu gwybodaeth am dueddiadau o ran y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ac yna bydd yn ystyried ac yn asesu sut y mae Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (Rhagfyr 2018) yn darparu ar gyfer y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a chaiff ei ddefnyddio i lywio'r broses o lunio'r CDLI Adneuo.

1.3 Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth lunio polisiau defnydd tir ac yn y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, bydd lles yr iaith yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn cynnwys y rheiny'n ymwneud ag addysg, demograffeg, newidiadau yn y gymuned a chapasiti'r gymuned, mynediad at dai, a sylfaen economaidd gadarn. Mae'r ffactorau hyn yn rhai y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt i ryw raddau, ond nid ydynt o fewn ei rheolaeth yn llwyr. Nid oes unrhyw fwriad i ddelio â'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar iaith yn fanwl iawn yn y papur hwn ond gellir delio â rhai agweddau sylfaenol a chael gwell dealltwriaeth o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin a'r heriau sy'n ei hwynebu.

1.4 Nodau'r dogfen yw:

- Gosod y cyd-destun cenedlaethol a lleol o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg yng Nghymru ac yn Sir Gaerfyrddin;
- Gosod y cyd-destun polisi cynllunio ar gyfer yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg a chynllunio ar hyn o bryd; a
- Nodi ac ystyried y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

## **2 Y Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi**

### **Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Strategol**

#### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

2.1 Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chreu Cymru yr ydym eisiau byw ynddi. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 nod llesiant i Gymru. Y nod llesiant sy'n berthnasol iawn i'r Gymraeg yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', *Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden*. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrf cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i weithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r nodau llesiant y mae'n eu cyflwyno.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, fel cynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol roi sylw i'r cynlluniau llesiant lleol perthnasol a'r datganiadau ardal sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer yr ardal (paragraff 1.27 PCC Rhifyn 10). Fel rhan o'r gwaith o lunio cynllun llesiant, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu cyfres o amcanion llesiant, ac mae un ohonynt yn nodi nod yr Awdurdod i Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru.

#### **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

2.3 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Arfarniadau Cynaliadwyedd Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr Awdurdod (A.11(3)).

#### **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

2.4 Mae Adran 61 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i adolygu'r materion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu gynllunio ei datblygiad, gan gynnwys prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr awdurdod ac i ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr ardal.

#### **Mesur y Gymraeg (2011)**

2.5 Wrth gyflwyno Mesur y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, nod Llywodraeth Cymru yw:

- Cynyddu a gwella gwasanaethau Gymraeg i bobl Cymru
- Sicrhau gwell eglurder a chysondeb o ran y gwasanaethau y gellir eu disgwyl yn Gymraeg
- Rhoi hawliau i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

## Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

2.6 Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Mae Gweledigaeth y Strategaeth yn amlinellu ei hamcanion hirdymor:

**Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.**

2.7 Nodir tair thema strategol i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

2.8 Dywed y strategaeth:

*Dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg drwy greu amodau addas i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Bydd ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynllunio ieithyddol yn ategu hyn.*

*Gallai penderfyniadau a wneir ynghylch math, graddfa ac union leoliad datblygiadau oddi mewn i gymuned benodol ddylanwadu'n fawr ar ddefnydd o iaith, ac yn sgil hynny ar gynaliadwyedd a hyfywedd yr iaith. Mae hyn yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir.*

*Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg fwydo i mewn i'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol, ac mae canllawiau ar gael i helpu awdurdodau cynllunio yn hyn o beth. O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae gwaith cynllunio datblygu ar bob lefel, bellach, yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau o'r fath gynnwys asesiad o effeithiau tebygol eu polisiau ar y Gymraeg.*

## Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10

2.9 Mae polisi cenedlaethol yn atgyfnerthu darpariaethau Ddeddf Cynllunio (Cymru) drwy ailadrodd bod yn rhaid asesu effeithiau tebygol cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o arfarniad cynaliadwyedd y Cynllun. Canllawiau pellach mewn perthynas â nodiadau 'Y Gymraeg a Chreu Lleoedd':

3.26 ...'Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.

3.27 'Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisiau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisiau eraill.'

## Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Gymraeg' Hydref 2017

2.10 Mae dwy ran i'r Nodyn Cyngor Technegol 20: mae'r rhan gyntaf yn rhoi canllawiau ynghylch paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyried y Gymraeg yn y broses rheoli datblygu. Mae'r ail ran yn rhoi canllaw ymarferol i gynorthwyo o ran ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Darperir isod grynodedd o'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'r broses o lunio CDLI:

- Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) ystyried y berthynas rhwng strategaeth, polisïau a dyraniadau safleoedd y CDLI ag anghenion a chyfleoedd cymdeithasol a chymunedol, trwy Arfarniad Cynaliadwyedd (paragraff 2.1.2)
- Gellir defnyddio Cynllun Cynnwys y Gymuned, fel rhan o'r Cytundeb Cyflenwi, i ofyn barn cymunedau am y cyd-ymwneud rhwng y Gymraeg a diwylliant Cymru a pholisïau a chynigion CDLI (paragraff 2.2)
- Dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd ystyried defnydd y Gymraeg o safbwynt ei pherthnasedd i ddefnydd tir a ddylai asesu tystiolaeth o effaith strategaeth, polisïau a dyraniadau gofodol ar y defnydd o'r Gymraeg (2.3.1)
- Yn y cam Strategaeth a Ffeirir o'r broses o baratoi'r Cynllun, dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd gofnodi gwaith arfarnu sydd wedi'i gynnal hyd yma, gan gynnwys rhagweld a gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLI ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (2.5)
- Yng nghanol y Cynllun Adneuo o'r broses o baratoi'r Cynllun, dylai'r ACLI sicrhau bod y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau tir yn y cynllun yn gyson â'r Arfarniad Cynaliadwyedd, a ddylai ystyried effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg (2.6)
- Caiff y CDLI ddiffinio ardaloedd lle ystyrir bo'r Gymraeg yn arbennig o sensitif neu arwyddocaol (2.7)
- Dylai mesurau lliniaru gael eu nodi yn y CDLI a gellir defnyddio cyfraniadau datblygwr drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu gytundebau adran 106 i'r perwyl hwn (2.8 a 2.9)
- Wrth baratoi a chasglu tystiolaeth, dylai'r ACLI ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes megis y cynllun llesiant lleol, data'r cyfrifiad, data o'r Arolwg Defnydd Iaith, strategaethau a mentrau lleol a gwybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth addysg, ffactorau economaidd a chyfleusterau cymunedol.
- Wrth asesu'r dystiolaeth a gasglwyd, bydd rhai neu bob un o'r ffactorau canlynol yn debygol o ddylanwadu ar ddull gweithredu'r ACLI:
  - Ydy'r mwyafrif, neu nifer sylweddol o'r boblogaeth, yn siarad Cymraeg o fewn cymunedau yn ardal y cynllun?
  - Ydy niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn tyfu neu'n dirywio ar y cyfan?
  - Patrymau mudo a phroffil oedran y rhai sy'n symud allan o'r ardal ac i mewn iddi. Faint o bwysau y mae hyn yn eu rhoi ar wasanaethau a seilwaith?
- Gall materion allweddol i'w hasesu gynnwys polisïau yn ymwneud â thai, tir cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a seilwaith addysg, rhwymedigaethau cynllunio ac arwyddion.
- Mae'n bosibl y bydd angen mesurau i liniaru'r effeithiau croes a chymau gweithredu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a dylid eu clustnodi yn ystod cam llunio'r cynllun a'u nodi yn y Cynllun Adneuo a gellid cynnwys manylion yn y CCA.

## **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) – Drafft Ymgynghori (7 Awst 2019)**

2.11 Ar ôl ei fabwysiadu, y FfDC fydd yr haen uchaf o gynlluniau datblygu yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Adeiledir ar y fframwaith gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar lefel isranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar lefel awdurdod lleol. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ategu'r FfDC, a rhaid i'r penderfyniadau strategol a wneir ganddynt gydymffurfio â'r cyfeiriad a roddir gan y FfDC. Felly caiff y CDLI ei lywio a'i rwymo gan ei gyfeiriad a'i uchelgeisiau strategol.

2.12 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y fersiwn ddrafft o'r FfDC ym mis Awst 2019 at ddibenion ymgynghori. Er bod hyn yn destun ymgynghori parhaus a thrafodaethau dilynol, nodir amlinelliad cryno o ddarpariaethau'r Fframwaith mewn perthynas â'r iaith isod. Disgwylir i'r fersiwn derfynol o'r FfDC gael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020, cyn y disgwylir i'r CDLI Diwygiedig gael ei fabwysiadu.

2.13 Mae'r FfDC drafft yn adleisio uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chynnydd o 10% yng nghanran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050; fel un o'i ganlyniadau, mae'r FfDC yn ceisio datblygu Cymru lle mae pobl 'yn byw mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu' (canlyniad 4 o'r FfDC), gan nodi'r nod canlynol fel un o'i ganlyniadau:

***Ein nod yw sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 – sef cynnydd o bron 80% o gymharu â'r lefelau presennol. Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd awdurdodau addysg yn arwain ar ddatblygu'r seilwaith i alluogi'r iaith i ddatblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau.***

2.14 Mae'r FfDC yn nodi Sir Gaerfyrddin fel rhan o ardal ddaearyddol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi 'Gydag ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg yn y rhanbarth, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg.' (Pennod 5: Y Rhanbarthau)

2.15 Felly bydd angen i'r CDLI asesu'r cysylltiadau rhwng yr iaith ac elfennau allweddol strategaeth y CDLI er mwyn cydymffurfio ag uchelgais yr FfDC a sicrhau bod polisiâu a darpariaethau'r CDLI yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn.

## **Polisi a Strategaethau Lleol**

2.16 Mae CDLI Sir Gaerfyrddin (2006-2021) yn nodi'r angen i ddiogelu gwead cymdeithasol cymunedau'r sir fel un o'r prif faterion ar gyfer y CDLI. Fel rhan o hyn, mae'r Cynllun yn nodi'r angen iddo gyfrannu at ddiogelu 'llesiant y Gymraeg yn y dyfodol'.

2.17 Mae'r CDLI yn adlewyrchu hyn yn ei brif amcanion, ac yn gwneud hynny'n benodol ac yn eglur drwy Amcan Strategol 7 a amlinellir isod.

**AS7: Cynorthwyo i warchod a gwella'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw, asedau a gwead cymdeithasol y Sir.**

2.18 Nododd y CDLI yr angen i liniaru effeithiau datblygu yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau. Amlinellodd y polisi ofyniad i ddatblygu'n raddol fel

bod y cymunedau'n cael cyfle i dderbyn ac addasu i effeithiau'r datblygiad ac fel y gellid cymathu'r cynlluniau datblygu i wead cymdeithasol y gymuned.

## **SP18 Y Gymraeg**

**Caiff buddiannau'r Gymraeg eu diogelu a'u hyrwyddo. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl o 5 neu ragor o anheddau mewn Cymunedau Cynaliadwy a 10 neu ragor mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol, ar safleoedd mewn cymunedau lle mae 60% neu ragor o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, yn ddarostyngedig i ofyniad ar gyfer datblygu fesul cyfnod.**

2.19 Mae'r polisi hwn wedi bod yn destun monitro parhaus fel rhan o ofynion monitro blynyddol y CDLI. Ni chododd yr Adroddiadau Monitro Blynyddol nac Adroddiad Adolygu'r CDLI yn sgil hynny (Chwefror 2018) unrhyw faterion o ran gweithredu Polisi PS18. Er hynny, ers llunio'r CDLI, a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014, bu newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth a pholisi cynllunio, yn fwyaf nodedig wrth gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a nodyn cyngor technegol newydd, sef Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg yn 2017. Yn ogystal, mae angen adolygu'r holl ddata perthnasol fel rhan o'r broses o lunio'r CDLI Diwygiedig sy'n cynnwys casglu ac asesu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

## **Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem 2018-2023 (Mai 2018)**


2.20 Mae'r Cynllun yn nodi ei gefnogaeth i gynnal a datblygu cymunedau cydlynol dwyieithog ac yn nodi bod yn rhaid iddo sicrhau fod cynllun a gweithrediad y gweithgareddau amrywiol a chatau gweithredu yn y cynllun llesiant yn cofleidio'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, a'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

2.21 Fel rhan o'r gwaith o lunio cynllun llesiant, nodwyd cyfres o amcanion llesiant, ac mae un ohonynt yn nodi nod yr Awdurdod i Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant.

## **Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin (2017)**

2.22 At ddibenion Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, nodwyd chwe ardal gymunedol ledled Sir Gaerfyrddin ar sail Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (gweler Ffigwr 1 isod). Nododd yr Asesiad fod gwahaniaethau rhwng ardaloedd cymunedol yn y sir; mae dros hanner poblogaeth ardal gymunedol 3 yn siaradwyr Cymraeg ond dim ond 25% o boblogaeth ardal gymunedol 6 sy'n siaradwyr Cymraeg. Roedd hyn o'i gymharu â chanfyddiadau'r arolwg Llesiant lle dywedodd 47% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda 44% o'r ymatebwyr yn ardal gymunedol 4 yn cytuno bod yr iaith yn rhoi synnwyr o hunaniaeth iddynt o gymharu â 28% o'r ymatebwyr yn ardal gymunedol 6.





Ffigwr 1 : Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin (2017))

## Ymagwedd Cyngor Sir Caerfyrddin at y Gymraeg

2.23 Yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2011, sefydlodd Cyngor Sir Caerfyrddin Weithgor y Cyfrifiad a oedd yn cynnwys 9 aelod etholedig. Nododd y Grŵp 8 maes blaenoriaeth i'w hystyried, ac un o'r rhain oedd Cynllunio gan ganolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy a datblygu cynaliadwy.

2.24 Comisiynodd y gweithgor ddau ddarn o waith ymchwil penodol: Yn gyntaf, comisiynwyd Dr Dylan Phillips i baratoi adroddiad ystadegol manwl ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, nid yn unig ar gyfer gwaith y Gweithgor ond hefyd fel sylfaen dystiolaeth i lywio gwaith parhaus y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg yn y sir. Mae'r adroddiad hwn - Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin - wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r papur pwnc hwn. Yn ail, comisiynwyd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i wneud darn o waith ymchwil yn ymwneud â Chynllunio a'r Gymraeg, gan edrych yn benodol ar ystadau tai yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llandeilo.

2.25 Anfonwyd holiadur at bob un o'r 281 o dai ac ymatebodd 160 (56.9%). Mae'r ymchwil yn dangos bod 68.6% (103 o'r 150 a ymatebodd) wedi symud i'r eiddo presennol o aelwyd arall yn Sir Gaerfyrddin a nododd 14% arall eu bod wedi symud o ardal arall yn ne-orllewin Cymru. Dim ond 6% nododd eu bod wedi symud o ran arall o'r Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru. Mae'r data a gasglwyd yn awgrymu bod yr ystadau tai yn diwallu anghenion y boblogaeth leol yn bennaf. Yn ogystal, Cymraeg oedd y brif iaith yn 28% o'r aelwydydd (41 o 146) ac roedd y Gymraeg hefyd yn cael ei siarad mewn 23% aelwyd arall. Mae'r astudiaeth hon yn cynnig trosolwg cryno o'r cysylltiadau rhwng datblygu a'r defnydd o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ond gan fod y sampl yn cynnwys nifer fach o ardaloedd daearyddol ac aelwydydd yn unig, byddai angen rhagor o dystiolaeth er mwyn dod i unrhyw gasgliadau neu nodi unrhyw gydberthynas neu dueddiadau o ran tystiolaeth.

2.26 Yn fwy diweddar, ar 10 Gorffennaf 2019, penderfynodd y Cyngor Sir gefnogi'r rhybudd canlynol o gynnig a gyflwynwyd gan un o'i aelodau:

*"Mae'r Cyngor hwn yn credu bod Sir Gaerfyrddin gyfan yn 'ardal lle mae sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol' a bod y system gynllunio'n cyflawni rôl hanfodol o ran cefnogi'r Gymraeg ledled y sir. I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai'r iaith fod yn Ystyriaeth Gynllunio Berthnasol yn yr holl geisiadau ar gyfer datblygiad o bum tŷ neu ragor mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad o ddeg tŷ neu ragor mewn ardaloedd trefol ym mhob cymuned, beth bynnag yw canran y siaradwyr Cymraeg.*

*Rydym yn parhau o'r farn bod y polisi hwn yn angenrheidiol a bod cyfiawnhad drosto oherwydd:*

- *yr angen i fynd i'r afael â'r lleihad mawr ac annisgwyl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Cyfrifiad 2011.*
- *mae'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*
- *mae'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig "Cymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu: cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg..."*


### 3 Y Gymraeg a Sir Gaerfyrddin

3.1 Mae'r adran hon yn casglu data gwaelodlin i amlinellu'r dosbarthiad a'r tueddiadau o ran y defnydd o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

#### Siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin

3.2 Gyda 78,048 o siaradwyr Cymraeg ymhlith ei phoblogaeth, Sir Gaerfyrddin yw'r sir â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae ganddi'r bedwaredd gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 43.9% (data Cyfrifiad 2011). Mae amrywiad eang yn niferoedd a chyfrannau'r siaradwyr Cymraeg ledled Cymru, ond ar gyfartaledd mae 19% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg.

3.3 Mae'r llun isod yn dangos dosbarthiad siaradwyr Cymraeg fesul ward etholiadol fel y'i cofnodwyd yn nata Cyfrifiad 2011. Er nad oes crynhoad amlwg o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw ardal benodol, mae'n amlwg bod nifer o wardiau â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn Nyffryn Aman a Chwm Gwendraeth a leolir yn y clwstwr a nodwyd fel 'Aman a Gwendraeth Uchaf' yn y Papur Trafod Rôl a Swyddogaeth (Rhagfyr 2018).



Ffigwr 2: % y siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Etholiadol Sir Gaerfyrddin (ffigwrau Cyfrifiad 2011)

3.4 Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gostwng yn raddol ers troad y ganrif ddiwethaf ac mae gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi'i gofnodi gan bob Cyfrifiad ers 1901.

3.5 Yn fwy diweddar, yn ystod y cyfnod rhwng Cyfrifiadau 1991, 2001 a 2011, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng o 54.9% i 43.9%. Am y tro cyntaf yn hanes Sir Gaerfyrddin mae canran siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin wedi gostwng islaw'r hanner. Hefyd gwelodd Sir Gaerfyrddin yr ail ostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001, sef 4.5% (Ceredigion oedd yr unig sir lle bu gostyngiad mwy, sef 7.1%). Yn y cyfnod rhwng 2001 a 2011 gwelodd Sir Gaerfyrddin y gostyngiad mwyaf yng Nghymru, sef 6.4%.

3.6 Ceir crynodeb isod o ganlyniadau Cyfrifiad 2001 a 2011 sy'n nodi nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

|      | Gallu siarad Cymraeg | Methu â siarad Cymraeg | % sy'n gallu siarad Cymraeg |
|------|----------------------|------------------------|-----------------------------|
| 2001 | 84,196               | 93,177                 | 50.3                        |
| 2011 | 78,048               | 99,594                 | 43.9                        |


3.7 Nid yw'r gostyngiad sylweddol yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn unigryw i Sir Gaerfyrddin, ac mae'r gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg yn dueddiad sydd i'w weld ledled Cymru rhwng 2001 a 2011, ond yn enwedig yn yr ardaloedd o Gymru a adnabyddir yn draddodiadol fel cadarnleoedd y Gymraeg ('Y Fro Gymraeg') megis Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion.

3.8 Nodir rhagor o wybodaeth isod i ddangos cyfran y siaradwyr Cymraeg ym mhob Ward Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin a gofnodwyd gan ddata Cyfrifiad 2001 a 2011.

| WARD                       | % y Siaradwyr Cymraeg 2001 | % y Siaradwyr Cymraeg 2011 | Gwahaniaeth ers 2001 % |
|----------------------------|----------------------------|----------------------------|------------------------|
| Abergwili                  | 57.9                       | 55.7                       | -2.2                   |
| Rhydaman                   | 62.0                       | 49.9                       | -12.1                  |
| Y Betws                    | 62.8                       | 53.4                       | -9.4                   |
| Bigyn                      | 28.6                       | 23                         | -5.6                   |
| Porth Tywyn                | 36.4                       | 32.2                       | -4.2                   |
| Y Bynea                    | 35.9                       | 31                         | -4.9                   |
| Gogledd Tref Caerfyrddin   | 41.1                       | 37.4                       | -3.7                   |
| De Tref Caerfyrddin        | 44.5                       | 38.2                       | -6.3                   |
| Gorllewin Tref Caerfyrddin | 43.2                       | 37.2                       | -6.0                   |
| Cenarth                    | 59.6                       | 48.8                       | -10.8                  |
| Cil-y-cwm                  | 49.3                       | 46                         | -3.3                   |
| Cynwyl Elfed               | 57.9                       | 54.3                       | -3.6                   |
| Cynwyl Gaeo                | 58.3                       | 46.7                       | -11.6                  |
| Dafen                      | 32.0                       | 26.9                       | -5.1                   |
| Elli                       | 35.1                       | 28.6                       | -6.5                   |
| Felin-foel                 | 33.5                       | 28.1                       | -5.4                   |
| Y Garnant                  | 69.6                       | 58.5                       | -11.1                  |
| Glanaman                   | 67.1                       | 59.8                       | -7.3                   |

|                          |      |      |       |
|--------------------------|------|------|-------|
| Glan-y-môr               | 24.5 | 19.2 | -5.3  |
| Y Glyn                   | 65.8 | 58.9 | -6.9  |
| Gors-las                 | 70.4 | 64.1 | -6.3  |
| Yr Hendy                 | 52.1 | 43.8 | -8.3  |
| Hengoed                  | 37.9 | 32.7 | -5.2  |
| Cydweli                  | 50.7 | 44.4 | -6.3  |
| Talacharn                | 23.8 | 22.4 | -1.4  |
| Llanboidy                | 54.4 | 48.7 | -5.7  |
| Llanddarog               | 63.1 | 57.8 | -5.3  |
| Llandeilo                | 55.1 | 50.3 | -4.8  |
| Llanymddyfri             | 47.0 | 40.3 | -6.7  |
| Llandybïe                | 62.3 | 57   | -5.3  |
| Llanegwad                | 59.9 | 53.5 | -6.4  |
| Llanfihangel Aberbythych | 56.7 | 51.6 | -5.1  |
| Llanfihangel-ar-arth     | 66.4 | 57.5 | -8.9  |
| Llangadog                | 60.0 | 55.7 | -4.3  |
| Llangeler                | 60.2 | 54.5 | -5.7  |
| Llangennech              | 46.4 | 39.9 | -6.5  |
| Llangynnwr               | 54.0 | 48   | -6.0  |
| Llangyndebyrn            | 65.4 | 58.8 | -6.6  |
| Llannon                  | 71.1 | 64.2 | -6.9  |
| Llansteffan              | 49.0 | 44.2 | -4.8  |
| Llanybydder              | 64.5 | 58.6 | -5.9  |
| Llidi                    | 32.7 | 28.1 | -4.6  |
| Llwynhendy               | 33.0 | 26.1 | -6.9  |
| Maenordeilo a Salem      | 49.4 | 48.2 | -1.2  |
| Pen-bre                  | 36.4 | 31.1 | -5.3  |
| Pen-y-groes              | 70.0 | 62.2 | -7.8  |
| Pontaman                 | 60.1 | 53   | -7.1  |
| Pontyberem               | 73.3 | 67.4 | -5.9  |
| Cwarter Bach             | 74.9 | 68.7 | -6.2  |
| Sanclêr                  | 56.3 | 54.4 | -1.9  |
| Llanismel                | 55.3 | 50.3 | -5.0  |
| Saron                    | 65.1 | 54.4 | -10.7 |
| Dyffryn y Swistir        | 36.2 | 33.1 | -3.1  |
| Tre-lech                 | 60.8 | 53.5 | -7.3  |
| Trimsaran                | 57.1 | 50.4 | -6.7  |
| Tŷ-croes                 | 58.1 | 47.1 | -11.0 |
| Ty-isa                   | 28.4 | 21.5 | -6.9  |
| Hendy-gwyn ar Daf        | 45.2 | 42.4 | -2.8  |

## Y gwahaniaeth yn nifer y siaradwyr Cymraeg 2001-2011 fesul ward etholiadol



Ffigwr 3: Y gwahaniaeth yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2001 a 2011 fel y'i cofnodwyd gan ddata'r Cyfrifiad

3.9 Mae'r gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar draws pob ward yn amlwg, ond dylid nodi hefyd nad oedd dim un ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2011 lle y gallai 70% y boblogaeth neu fwy siarad Cymraeg bellach, a dim ond 5 ward lle y gallai 60% poblogaeth y wardiau neu fwy siarad yr iaith (Gors-las, Llannon, Pen-y-groes, Pontyberem a Chwarter Bach).

3.10 O ran sgiliau eraill yn y Gymraeg, mae Cyfrifiad 2011 yn dangos cynnydd o 29.9% yn nifer trigolion Sir Gaerfyrddin (3 oed a throsodd) nad oes ganddynt unrhyw sgiliau yn y Gymraeg. O ganlyniad, nid yw bron hanner (42.8%) y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw ffordd (siarad, darllen nac ysgrifennu). Fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin yn gwneud yn eithaf da o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sy'n dangos nad oes gan 73.9% o drigolion Cymru unrhyw sgiliau yn y Gymraeg.

3.11 Yn wahanol i'r gostyngiad hwn a gofnodwyd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg a sgiliau Cymraeg, mae nifer y bobl sy'n deall Cymraeg llafar wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2001. Byddai'r tueddiadau hyn yn awgrymu bod cynnydd yn yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth ynglŷn â'r iaith yn y sir, ond mae'n debygol bod lleihad yn y defnydd cyffredinol, pob dydd a llafar a wneir ohoni.

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019)

3.12 Mae'r data diweddaraf, sy'n cael ei amlinellu yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019), yn nodi bod 95,400 o boblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n 3

oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn cyfateb i 53.3% o boblogaeth y sir.  
(ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>) Mae hyn i'w gymharu â 29.8% o boblogaeth Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg.

3.13 Roedd data'r Arolwg yn dangos bod 38.1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin Gymraeg ei hiaith yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, 6.4% yn siarad Cymraeg yn wythnosol a 7.3% arall yn siarad Cymraeg yn llai aml. Mae Sir Gaerfyrddin yn gwneud yn eithaf da o'i chymharu â'r ffigyrau cyfatebol ar gyfer Cymru sy'n nodi bod 16.7% o'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn siarad yr iaith yn ddyddiol, 5% yn wythnosol a 6.5% arall yn llai aml.

3.14 Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl bod rhesymau eraill dros y newid sylweddol yn y ffigyrau, a bod dulliau'r arolwg a ddefnyddiwyd a chwestiynau'r arolwg a ofynnwyd yn ffactorau posibl.  
(Ffynhonnell: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/canlyniadau-mewn-perthynas-ar-gymraeg-yr-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2001-i-2018.pdf>)

### Oedran Trigolion Sir Gaerfyrddin

3.15 Patrwm arwyddocaol arall yng nghyd-destun y boblogaeth yw mai parhau i gynyddu mae'r boblogaeth hŷn yn y sir ac erbyn 2011 roedd 21.5% o'r boblogaeth dros 65 oed gyda'r rhagolygon i'r dyfodol yn awgrymu mai codi eto bydd y ffigwr hwn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiad bod pobl ifanc yn gadael y sir wedi iddynt orffen eu haddysg statudol.

3.16 Erbyn 2011, gellir gweld canran uchaf y siaradwyr Cymraeg ymhlith y grŵp oedran 3 – 15 (57.7%) a phobl 85 oed neu hŷn (56.9%). Mae canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 25-49 (36.4 y cant) yn sylweddol is na'r cyfartaledd sirol (43.9 y cant), ac yn sylweddol is na chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 15-24 yng nghanlyniadau 2001 (49.2 y cant).

### Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin fesul Grŵp Oed, 2011

| Siaradwyr Cymraeg<br>(3 oed a throsodd) | Nifer  | Canran<br>(%) |
|-----------------------------------------|--------|---------------|
| 3 - 15                                  | 15,514 | 57.7          |
| 16 - 24                                 | 9,040  | 46.2          |
| 25 - 34                                 | 7,073  | 37.5          |
| 35 - 49                                 | 12,881 | 35.8          |
| 50 - 64                                 | 14,910 | 39.1          |
| 65 - 74                                 | 9,209  | 45.3          |
| 75 - 84                                 | 6,472  | 51.2          |
| 85+                                     | 2,949  | 56.9          |
| CYFANSWM                                | 78,048 | 43.9          |

Tabl 1: Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin fesul Grŵp Oed (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)




## Mudo

3.17 Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu'n gyson ers y 1980au. Mae'r papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin a baratowyd gan Edge Analytics yn darparu asesiad o dueddiadau'r boblogaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Ar y cyfan, mae'n crynhoi er bod cyfraddau marw bellach yn fwy na chyfraddau geni, mae'r rhain wedi aros yn weddol statig ac felly mewnfudo oedd y prif reswm am y cynnydd yn y boblogaeth. Mae hefyd yn dangos bod y cenedlaethau iau'n allfudo.

3.18 Mae'r llun isod yn dangos y cynnydd yn y boblogaeth yn y degawdau diwethaf a'r duedd o ran y gostyngiad yn niferoedd a chyfrannau'r siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin.


### Niferoedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2011)



Ffigwr 4: Niferoedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin a niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin (Cyfrifiad 2011) (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)

3.19 Mae'r papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd yn nodi ar y cyfan bod cynnydd wedi bod yn y mewnfudo net dros y blynyddoedd diwethaf h.y. mudo o fannau eraill yn y DU. O ran cysylltiadau mudo rhwng Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cyfagos, bu'r cyfnewidiadau positif mwyaf gydag Abertawe (+113 y flwyddyn), Ceredigion (+66 y flwyddyn) a Chastell-nedd Port Talbot (+32 y flwyddyn). Yn achos cyfnewid all-lif, bu'r prif all-lif net i Gaerdydd (119 y flwyddyn), gydag all-lifau net llai i Fryste (17 y flwyddyn); lle mae mudo blynyddol myfyrwyr i addysg uwch wedi dylanwadu ar y ddau.





Ffigwr 5: Mewnfudo net blynyddol cyfartalog fesul grŵp oedran 2001/02–2016/17 (o'r papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd a baratowyd gan Edge Analytics)

3.20 Mae'r papur Rhagolygon yn nodi o ran proffil oedran mudo fod mewnlif net ym mhob grŵp oedran yn Sir Gaerfyrddin, er gwaethaf y grwpiau oedran 15–19 a 25–29 (gweler Ffigwr 5 uchod). Mae'r all-lif net mawr oedran 15–19 yn gysylltiedig â'r boblogaeth o fyfyrwyr yn symud allan o Sir Gaerfyrddin ar gyfer addysg uwch, gyda llif dychwelyd bychan yn y grŵp oedran 20–24. Mae'r all-lif net llai yn y grŵp oedran 25–29 yn debygol o fod yn gysylltiedig â symud oherwydd cyflogaeth a thai.


3.21 Adlewyrchir mewnlif net y grwpiau oedran teuluoedd ifanc 30–44 gan dwf yn y grwpiau oedran 0–14, wrth i bobl symud i Sir Gaerfyrddin naill ai i gael plant neu gyda'u teuluoedd. Cofnodir mewnlif net ym mhob grŵp oedran hŷn (65+), gan gyfrannu at broffil poblogaeth sy'n heneiddio Sir Gaerfyrddin.

3.22 O ran mudo rhyngwladol, mae cyfanswm mewnfudo Sir Gaerfyrddin wedi parhau i fod yn uwch nag allfudo. Mae'r papur Rhagolygon yn nodi bod cynnydd sydyn mewn mewnfudo yn 2006/07 (+863), gan arwain at uchafbwynt mewn mudo rhyngwladol net, gyda phroffil mwy sefydlog wedi hynny. Cafwyd cyfartaledd o +291 y flwyddyn mewn llifau allfudo o Sir Gaerfyrddin ers 2001/02.

3.23 Mae ystadegau NINo yn darparu golwg amgen ond cyflenwol ar fewnfudo yn gysylltiedig â phoblogaethau gweithwyr mudol. Cyrhaeddodd cofrestriadau NINo eu hanterth yn 2007 (1,313), wedi'u gyrru gan gynnydd sylweddol mewn mewnfudo o Wlad Pwyl; a adlewyrchwyd mewn amcangyfrifon mewnfudo ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn anterth 2007, disgynnodd cofrestriadau NINo i 467 yn 2009, a chofnodwyd cynnydd rheolaidd hyd at 2015. Yn 2017, cofnodwyd llai o gofrestrïadau, wedi'u gyrru gan gwymp mewn cofrestriadau gweithwyr Pwylaidd a Rwmanaidd. Gwelwyd tuedd debyg ar lefel genedlaethol, gyda chwymp mewn gweithwyr Pwylaidd, Rwmanaidd a Sbaenaidd yn arwain at gofrestrïadau NINo is yn 2017.

3.24 Ers 2002, mae Gwlad Pwyl wedi cyfrannu 58% o bob cofrestriad NINo, gyda 6% o Rwmania, 3% o India, Iwerddon a Phortiwgal a 2% o Fwlgaria a'r Philipinau. Mae oddeutu 71% o bob cofrestriad NINo ers 2002 wedi dod o wledydd UE13, o'i gymharu ag 11% o wledydd UE Eraill.

3.25 Nodwyd yn y ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips fod cyfran trigolion Sir Gaerfyrddin a anwyd y tu allan i Gymru wedi cynyddu'n gyson yn ystod y degawdau diwethaf a bod allfudiad siaradwyr Cymraeg a mewnfudiad siaradwyr uniaith Saesneg wedi peri dirywiad sylweddol yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ar draws y cadarnleoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn y ddogfen ei hun, ond mae Phillips yn nodi bod canrannau'r trigolion a anwyd yng Nghymru wedi parhau i fod yn eithriadol o uchel mewn rhai rhannau o'r sir megis Llanelli a Rhydaman, ond bod nifer y mewnfudwyr wedi bod yn sylweddol uwch mewn rhai ardaloedd mwy gwledig megis Llanboidy, Tre-lech a Chynwyl Elfed yn ardal Bro Myrddin, Cynwyl Gaeo, Cil-y-cwm, Maenordeilo a Llangadog yn ardal Dyffryn Tywi, a Chenarth, Llangeler a Llanybydder yn ardal Dyffryn Teifi.



Ffigur 6: Poblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru yn Sir Gaerfyrddin 2011 (o'r ddogfen Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan Dr Dylan Phillips)

3.26 Mae Phillips yn nodi yr ymddengys fod cyfatebiaeth agos mewn nifer o gymunedau rhwng canrannau'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru a chanrannau siaradwyr uniaith Saesneg, sy'n awgrymu bod rhai wardiau wedi eu Seisnigo o ganlyniad i fewnfudo.

3.27 Fodd bynnag, wrth edrych ar ddata'r Cyfrifiad rhwng 2001 a 2011 mae'r darlun yn wahanol iawn gan fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd a welodd y lefelau uchaf o fewnfudo yn ardaloedd trefol yn hytrach nag yn ardaloedd gwledig. Mae Phillips yn nodi, o'r 13 ward yn Sir Gaerfyrddin a welodd gynnydd o +5 y cant a mwy yn y boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru rhwng 2001 a 2011, mai dwy yn unig oedd yn wardiau gwledig Trefi Lanelli, Rhydaman, Caerfyrddin a Hendy-gwyn ar Daf a brofodd y cynnydd mwyaf – Ty-isa oedd y ward oddi fewn i dref Lanelli a welodd y mewnfudo mwyaf o ran canran wrth iddo brofi cynnydd o +11.7 y cant yng nghanran y trigolion a anwyd y tu allan i Gymru (neu gyfanswm o +489 o bobl), a Glan-y-môr yn Lanelli y nifer mwyaf gyda chyfanswm

o +592 (neu gynnydd mewn canran o +8.8 y cant). Mae hyn yn dangos, er bod mewnfudwyr wedi'u denu'n hanesyddol i ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin, bod newid sylweddol wedi digwydd rhwng 2001 a 2011 yn y duedd i fudo i ardaloedd trefol y sir ac yn benodol i ardaloedd twf y sir. Mae ystadegau'r cyfrifiad yn 2011 hefyd yn rhoi syniad o allu ieithyddol y mewnfudwyr. Ledled y sir, roedd 13.2 y cant o'r mewnfudwyr yn honni eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

## 4 Y CDLI Diwygiedig

### Gweledigaeth, Materion ac Amcanion

4.1 Gwnaed gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o gamau cynnar paratoi CDLI Diwygiedig, er mwyn nodi'r materion a'r amcanion perthnasol i'r CDLI. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yn sylfaen dystiolaeth y CDLI ac yn enwedig y Papur Cefndir - Gweledigaeth, Materion ac Amcanion.

4.2 Gwnaed gwaith ymgysylltu â Chynghorwyr Sir Etholedig Cyngor Sir Caerfyrddin, y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a'r cyhoedd.

4.3 Wrth ymgynghori â'r Cynghorwyr Sir, nodwyd y materion a'r ystyriaethau canlynol i'w hystyried wrth lunio'r CDLI (mae'r rhain wedi'u crynhoi at ddibenion y papur cefndir):

- Mae angen ystyried buddiannau o ran y Gymraeg - cyfraniad y Sir at filiwn o siaradwyr erbyn 2050
- Mae angen methodoleg ar gyfer asesu effaith datblygu ar y Gymraeg er mwyn cefnogi gweithrediad polisïau
- Mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol - dylid hyrwyddo arwyddion dwyieithog a herio datblygwyr, ceisio datblygu dull o asesu'r effaith ar yr iaith
- Mae'r Gymraeg ac anghenion gwledig yn faterion hollbwysig

4.4 Yn dilyn yr ymarfer hwn, cynhaliwyd arolwg ar-lein i gael barn y cyhoedd am bwysigrwydd y materion a nodwyd gan y Cynghorwyr Sir. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau uchod a'u perthnasedd a'u pwysigrwydd yn Sir Gaerfyrddin.

4.5 Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu hefyd â'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a oedd yn canolbwyntio ar amcanion llesiant Sir Gaerfyrddin i ddarparu fframwaith a themâu i lunio'r trafodaethau. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid nodi materion ac atebion yn ymwneud â phob amcan llesiant. Mae Amcan 14 yn berthnasol iawn i'r Gymraeg - hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant. Dyma'r sylwadau a roddwyd:

#### Materion:

- Diogelu'r amgylchedd hanesyddol
- Colli diwylliant ac iaith
- Mewnfudo

#### Atebion:

- Dull i asesu effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg ... ymyrraeth polisi cenedlaethol.
- Darparu tai fforddiadwy mewn cymunedau Cymraeg bach i gadw teuluoedd ifanc

4.6 Ar ôl ystyried yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori yn ogystal ag adolygu polisïau, cynlluniau/strategaethau corfforaethol a'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd, nodwyd 33 o faterion cryno ar gyfer y CDLI. Mae'r tri mater isod yn berthnasol iawn i'r Gymraeg:

### Sir Gaerfyrddin â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

28 Angen mesur effaith datblygu ar y Gymraeg.

29 Angen tai fforddiadwy yn ein cymunedau er mwyn cadw teuluoedd ifanc.

## **Y Strategaeth a Ffefrir**

4.7 Mae Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) yn darparu asesiad o'r effeithiau tebygol a ragwelir o ran elfennau canlynol y Strategaeth a Ffefrir a'r dewisiadau eraill:

- Yr amcanion strategol
- Y dewisiadau twf
- Y dewisiadau gofodol
- Y strategaeth a ffefrir – strategaeth cymunedau cytbwys a thwf cynaliadwy
- Y polisiau strategol

4.8 Cafodd y rhain i gyd eu hystyried a'u gwerthuso yn erbyn cyfres o Amcanion AC. AC11: Y Gymraeg sy'n berthnasol iawn i'r Gymraeg. Mae Ffigwr 8 o Adroddiad Cychwynnol yr AC - AAS yn rhoi amlinelliad o ganlyniad yr arfarniad. Roedd yr arfarniad yn bendant y byddai'r elfennau canlynol o'r Strategaeth a Ffefrir yn cael effeithiau cadarnhaol ar AC11: amcanion, dewis twf 4, dewis gofodol hybrid, PS4, PS5 a PS7.

4.9 Ystyriwyd bod yr elfennau eraill naill ai'n amherthnasol o ran eu cysylltiadau â'r effaith ar y Gymraeg neu y gallent gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ac y bydd angen ystyried mesurau lliniaru o bosib o ran yr effeithiau negyddol ac a ellid gwella'r effeithiau cadarnhaol.

## **Y CDLI Adneuo**

4.10 Er mwyn deall yn llawn sut y gall y CDLI Diwygiedig ddiogelu'r Gymraeg a darparu'r cyfleoedd i'w galluogi i dyfu a ffynnu yn Sir Gaerfyrddin, ystyrir ei bod yn fuddiol gwneud rhagor o waith i nodi sut y gall y CDLI roi sylw i'r sylwadau a wnaed fel rhan o Adroddiad Cychwynnol yr AC – AAS.

4.11 Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gellir manteisio i'r eithaf ar effeithiau cadarnhaol y polisiau strategol a sut y gellir goresgyn neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar yr iaith.

4.12 Yn benodol, ystyrir bod angen ystyried y materion canlynol: clustnodi ardaloedd ieithyddol sensitif; sut y gellir manteisio i'r eithaf ar effeithiau cadarnhaol disgwylidig y polisiau strategol; a sut y gellir lliniaru effeithiau negyddol disgwylidig y polisiau strategol.

4.13 Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Adneuo, bydd yn ofynnol hefyd sicrhau bod y strategaeth, y polisiau a'r dyraniadau tir yn y CDLI Adneuo yn gyson â'r AC.